# SL(6)766 – Gorchymyn Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (Eithrio Treuliau Diogelwch) (Diwygio) (Cymru) 2026

## Cefndir a Diben

Mae Atodlen 4A i Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 yn manylu ar y treuliau y mae rhaid i ymgeiswyr roi cyfrif amdanynt yn etholiadau Seneddol y DU ac mewn etholiadau llywodraeth leol, gan gynnwys etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru.

Mae paragraff 13A, a fewnosodwyd gan reoliad 4(1) o Reoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Amrywio Treuliau Etholiad ac Eithriadau) 2024 (O.S. 2024/428), yn darparu ar gyfer eithriad cyffredinol ar gyfer treuliau rhesymol yr eir iddynt ac y gellir eu priodoli yn rhesymol i ddiogelu personau neu eiddo, ac eithrio mewn etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru.

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio paragraff 13A fel bod yr eithriad cyffredinol yn gymwys mewn perthynas ag etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru.

## Gweithdrefn

Gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Gorchymyn gerbron y Senedd. Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud y Gorchymyn oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Gorchymyn drafft.

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd pwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

1. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Gorchymyn yn cyfeirio at egwyddor Gould, sy'n darparu na ddylid newid cyfraith etholiadol o fewn chwe mis i etholiad y byddai'r newid yn effeithio arno. Mae paragraffau 13-14 o'r Memorandwm Esboniadol yn nodi fel a ganlyn:

*"13. Dyddiad dod i rym yr Offeryn Statudol fydd 13 Mawrth 2026; fodd bynnag, bydd y ddeddfwriaeth yn dod i rym mewn perthynas ag etholiadau llywodraethleol o 7 Mai 2026 ymlaen.*

*14. Er nad yw hyn yn bodloni egwyddor Gould, mae'n bwysig bod y newidiadau yn digwydd cyn gynted â phosibl i amddiffyn diogelwch ymgeiswyr. At hynny, mae hwn yn newid syml, gan ddod â rheolau yn gydnaws ag etholiadau eraill yng Nghymru a Lloegr a gellir diweddaru canllawiau yn gyflym. Yn ogystal, nid yw'r diwygiad hwn yn ei gwneud yn ofynnol i wneud unrhyw newidiadau gweinyddol i'r systemau a ddefnyddir i gynnal etholiadau."*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn gydag ymateb y Llywodraeth yn ei gyfarfod ar 2 Mawrth 2026 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd uchod.